Clarifying the complexity of milk contracts

Carolyn Smith ADAS

Taking time to examine the milk contract and its constituents carefully will help maximise the price that farmers receive. The main factors which affect the milk pricing are:

- Type of contract. Those on a white water contract have less or none of their payment based on butterfat and protein. Those on a compositional contract will have their payments weighted mostly on protein with a smaller proportion on butterfat.

  The feeding system should be adjusted to suit the milk contract. Feeding starch in the diet helps to improve milk protein. Although the milk protein reflects herd nutrition and fertility, it is pointless feeding greater quantities of concentrate than necessary to achieve the milk protein higher than will be paid for in the contract.

- Seasonality and profile payments. Some milk processors have contracts which require a level profile though the year whilst other contracts penalise more for spring milk and favour autumn milk. Other processors have a combination of the two. The time of year at which heifers enter into the herd can affect the seasonality payments. Moving the calving pattern by delaying the service date for cows so that they calve a couple of months later to attain the improved seasonality will improve milk price, but milk will be lost from the delay in calving interval. Similarly a slippage in calving pattern will alter the production profile for the next year, resulting in a detrimental effect on the milk price and total milk production levels. It is crucial to calculate the consequences carefully to ensure it makes economic sense.

- Hygiene payments. Cell count and bactoscan are measured on a geometric average. The effect of the rolling geometric average means that it takes a couple of months for an increase in cell count or bactoscan to affect hygiene payments. However, it also takes longer for the cell count or bactoscan to decrease. It is essential that producers take action as soon as a high reading occurs, so that penalties to milk price can be avoided.

- Volume payments. If an organic milk buyer pays for volume, then volume payments for milk can increase directly with the volume of milk sold or the volume payment could be banded. For instance a contract where volumes payments increase in bands, a1% increase in milk production may allow the next band to be attained which could be 0.2ppl. This could be worth £1,400 on a production of 700,000 litres, provided this increase can be achieved profitability.

Carolyn Smith can be contacted on 01267 220127 or carolyn.smith@adas.co.uk. www.adas.co.uk.

Organic Centre Wales · Factsheet F24 - May 2010
Published by Organic Centre Wales, Institute of Biological, Environmental & Rural Sciences (IBERS), Aberystwyth University, Ceredigion, SY23 3EB. Tel. 01970 622248.
Organic Centre Wales and its partners cannot accept any responsibility for the consequences of any actions taken on the basis of its factsheets.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Egluro cymhlethdod cytundebau llaeth

Carolyn Smith ADAS

Mae cymryd amser i astudio cytundeb llaeth a'i gydrannau yn ofalus yn helpu i sicrhau bod ffermwyr yn derbyn gwell pris am eu llaeth. Dyma'r prif ffactorau sy'n effeithio ar y ffordd y mae llaeth yn cael ei brisio:

- Math o gytundeb. Mae llai o daliadau'r rheini sydd ar gytundeb "dŵr gwyn" yn seiliedig ar fraster menyn a phrotein, neu heb fod yn seiliedig arnynt o gwbl. Ar y llaw arall, mae'r rheini sydd ar gytundebau cyfansoddol wedi eu seilio'n bennaf ar brotein ac ar gyfran llai o fraster menyn.

  Dylid addasu'r system fwydo yn unol â'r cytundeb llaeth. Mae cynnwys startsh yn y diet yn helpu i wella protein llaeth. Er bod protein llaeth yn adlewyrchu maethiad a ffrwythlondeb gwartheg, ofer yw ceisio rhoi mwy o ddwysfwyd iddynt i sicrhau lefelau protein uwch na'r hyn y bydd y cytundeb yn talu amdano.

- Taliadau tymhorol a thaliadau proffil. Mae gan rai proseswyr llaeth gytundebau sy'n gofyn am broffil cyson drwy'r flwyddyn tra bo cytundebau eraill yn ffafrio llaeth yr hydref ac yn talu llai am laeth y gwanwyn. Mae cytundebau proseswyr eraill yn gyfuniad o'r cytundebau hyn. Gall adeg y flwyddyn pryd y cyflwynir heffrod i'r gyr gael effaith ar daliadau tymhorol. Gall newid y patrwm lloia fel bo gwartheg yn lloia ddeufis yn nes ymlaen er mwyn gwella pethau o ran y tymhorau sicrhau gwell pris am laeth, ond bydd llaeth yn cael ei golli oherwydd yr oedi yn y cyfnod lloia. Yn yr un modd, byddai unrhyw lithro yn y patrwm lloia yn newid proffil cynhyrchu'r flwyddyn ganlynol, gan gael effaith andwyol ar bris llaeth a lefelau'r llaeth a gynhyrchir. Mae cyfrifo cost y goblygiadau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr economaidd.

- Taliadau hylendid. Mae'r cyfrif celloedd a bactosgan yn cael eu mesur ar gyfartaledd geometrig. Mae effaith y cyfartaledd geometrig treiglol yn golygu ei fod yn cymryd ychydig o fisoedd i gynnydd yng nghyfrif celloedd neu factosgan gael effaith ar daliadau hylendid. Fodd bynnag, mae hefyd yn cymryd mwy o amser i'r cyfrif celloedd neu factosgan leihau. Mae'n hanfodol bod cynhyrchwyr yn cymryd camau cyn gynted ag y ceir darlleniad uchel, er mwyn osgoi prisiau is am eu llaeth.

- Taliadau cyfaint. Os yw prynwr llaeth organig yn talu am gyfaint, yna gall taliadau cyfaint am laeth gynyddu'n unol â chyfaint y llaeth a werthir neu gellid bandio'r taliadau cyfaint. Er enghraifft, mewn cytundeb lle mae taliadau cyfaint yn cynyddu mewn bandiau, gall cynnydd o 1% yn y llaeth a gynhyrchir beri symud i'r band nesaf a allai fod yn 0.2 ceiniog y litr. Gallai hyn fod yn werth £1,400 pe cynhyrchwyd 700,000 litr o laeth, a chymryd yn ganiataol y bydd y cynnydd hwn yn yllaeth a gynhyrchir yn dwyn elw.

Gellir cysylltu â Carolyn Smith ar 01267 220127 neu carolyn.smith@adas.co.uk. www.adas.co.uk

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru,IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government